**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

08 Mawrth 2024

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau UCD 2003") er mwyn:

a) rhagnodi mai pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion ("UCD"), yn hytrach na'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal, fydd y corff cyfrifol ar gyfer ystyried a ddylid derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd yn ôl. Diwygiad testunol yn unig yw hwn ac nid yw'n newid effaith y fframwaith cyfreithiol presennol, a

b) ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyfrifol ystyried a ddylai disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol gael eu derbyn yn ôl, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u gwahardd am gyfnod penodedig mewn rhai achosion. Mae hyn yn golygu bod rhaid cydymffurfio â'r broses dau gam sy'n berthnasol i waharddiadau o ysgolion a gynhelir yn dilyn gwaharddiad parhaol o UCD. Hynny yw:

i. mae pwyllgor rheoli yr UCD yn cyfarfod i ystyried a ddylid derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol yn ôl ac yn caniatáu cyflwyno sylwadau llafar yn y cyfarfod hwnnw, ac

ii. os yw'n penderfynu peidio â derbyn y disgybl yn ôl, mae gan y person perthnasol (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau UCD 2003) hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â derbyn disgybl yn ôl i banel apêl annibynnol a drefnir gan yr awdurdod lleol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2024 o dan bwerau yn adrannau 52(3), (4)(b), (c) a (d) a (5)(b), 210(7) a 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002.

3.2 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.3 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben Rheoliadau 2024 yw diwygio Rheoliadau UCD 2003 i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â'r broses dau gam sy'n berthnasol i ysgolion a gynhelir yn dilyn gwaharddiad parhaol o UCD (gweler paragraff 1.1).

4.2 Mae Rheoliadau UCD 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal UCD, (fel y corff cyfrifol o dan adran 52(5) o Ddeddf Addysg 2002), ystyried a ddylid

derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd am gyfnod penodedig yn ôl mewn rhai achosion. Fodd bynnag, yn rhinwedd rheoliad 22 o Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu dirprwyo i bwyllgor rheoli UCD. Er mwyn sicrhau eglurder, mae Rheoliadau 2024 yn rhagnodi mai pwyllgor rheoli UCD yw'r corff cyfrifol yn hytrach na dibynnu ar yr awdurdodau lleol i ddirprwyo'u swyddogaethau o dan Reoliadau 2014. Diwygiad testunol yn unig yw hwn ac nid yw'n newid effaith y fframwaith cyfreithiol presennol.

4.3 O dan Reoliadau UCD 2003, ni ragnodir unrhyw gorff cyfrifol i ystyried a ddylid derbyn disgybl yn ôl mewn perthynas â gwaharddiadau parhaol o UCD. Maent yn darparu, pan fo'r athro neu'r athrawes â gofal yn gwahardd unrhyw ddisgybl yn barhaol (neu'n penderfynu y dylai gwaharddiad am gyfnod penodedig gael ei wneud yn barhaol) mae gan y person perthnasol hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i banel apêl annibynnol a drefnir gan yr awdurdod lleol.

4.4 Bydd Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau UCD 2003 fel ei bod yn ofynnol i bwyllgor rheoli yr UCD gwrdd pan fydd disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol (neu pan fo gwaharddiad cyfnod penodedig yn cael ei wneud yn barhaol) i ystyried a ddylid derbyn y disgybl yn ôl ac yn caniatáu cyflwyno sylwadau llafar yn y cyfarfod hwnnw. Os yw'r pwyllgor rheoli yn penderfynu peidio â derbyn y disgybl yn ôl, mae gan y person perthnasol hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i banel apêl annibynnol a drefnir gan yr awdurdod lleol.

4.5 Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn gwneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau UCD 2003 sy'n ganlyniadol i'r newidiadau y cyfeirir atynt yn 4.2 i 4.4 uchod. Gwnaed diwygiadau hefyd i adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith ers i Reoliadau UCD 2003 gael eu gwneud, drwy ddiweddaru'r cyfeiriadau at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" i "Gweinidogion Cymru" a chyfeirio at yr wybodaeth y mae rhaid i'r pwyllgor rheoli ei darparu i awdurdod lleol pan fo gan y disgybl sydd wedi ei wahardd anghenion dysgu ychwanegol neu y gall fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Gwnaed diwygiadau hefyd i adlewyrchu drafftio niwtral o ran rhywedd ac i gywiro gwall gramadegol yn nhestun Cymraeg Rheoliadau UCD 2003.

4.6 Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Reoliadau UCD 2003 yn adlewyrchu arferion presennol UCD ac nid ydynt yn newid polisi, na'i effaith, mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

## 5. Ymgynghori

5.1 Yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22, gwaharddwyd 30 o ddisgyblion a oedd yn mynychu lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol[1].

5.2 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad oherwydd bod awdurdodau lleol ac athrawon sy'n gyfrifol am UCDau wedi ein hysbysu bod arferion presennol yn unol â'r diwygiadau arfaethedig.

[1] Mae hyn yn cynnwys disgyblion addysg heblaw yn yr ysgol sydd wedi'u cofrestru mewn UCDau ac mewn ysgolion annibynnol. Felly, gallai nifer y disgyblion sydd wedi'u gwahardd o UCDau fod yn is na 30.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i newid geiriad y gyfraith a diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad ydynt yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer asesu effaith reoleiddiol ar is-ddeddfwriaeth.